Gweiddi

**Tasg 3**

# Ar werth

Chwiliwch am lun o gartref ar y we e.e. tŷ, fflat, byngalo, carafán – unrhyw fath o gartref.

1. Rydych chi'n mynd i geisio gwerthu'r cartref yma i'r grŵp.

   Naill ai:
   - Gwnewch daflen i ddisgrifio'r cartref – dilynwch y fformat ar y brif sgrin os ydych chi eisiau. Cofiwch feddwl am bris.

   Neu:
   - Gwnewch gyflwyniad Pwerbwynt i werthu'r tŷ. Bydd hyn yn golygu
     - gwneud sleidiau sy'n cynnwys lluniau gwahanol o'r tŷ (e.e. lluniau o'r tu mewn) ac ychydig o destun ar bob llun – dim gormod
     - gwneud nodiadau ar gyfer y cyflwyniad.

> Cofiwch!
>
> Gan eich bod chi eisiau gwerthu'r cartref, rhaid i chi ddweud pethau da. Rhaid i chi berswadio pobl eraill fod y cartref yma'n wych.

2. Mewn grwpiau, ceisiwch werthu'r cartrefi i'ch gilydd.
   Rhowch wybodaeth am y cartref i'r grŵp.
   Yna, rhaid i bob aelod o'r grŵp bleidleisio dros y cartref hoffai ei brynu.

3. Faint yw pris pob cartref?
   Ysgrifennwch y pris mewn ffigurau ac mewn geiriau isod.

| **Cartref ………… (enw'r disgybl)** | **Math o gartref** | **Pris – ffigurau** | **Pris – geiriau** |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

4. Cyn gwneud y dasg nesaf, gwnewch yn siwr eich bod chi’n deall ystyr y geiriau hyn:

| | | |
|---|---|---|
| morgais, morgeisi | Swm o arian rydych chi’n gallu ei fenthyg, o gymdeithas adeiladu neu fanc fel arfer, i’ch helpu chi i brynu tŷ. Rhaid i chi dalu llog ar y benthyciad. | mortgage, mortgages |
| llog | Pan fyddwch chi’n benthyg arian, rhaid talu mwy yn ôl nag rydych chi’n ei gael. | interest |
| cyfraddau llog | Faint yn fwy fydd rhaid i chi ei dalu, e.e. 1%, 1.5%, 2%. Mae angen bod yn ofalus iawn achos mae’n bosib byddwch chi’n talu yn ôl lawer mwy o arian nag a gawsoch chi ei fenthyg. | interest rates |

Mae tai, byngalos, fflatiau ac ati’n ddrud iawn i’w prynu. Felly, sut mae pobl yn gallu cael arian i brynu cartref?

Un dull yw cael morgais.

Sut mae’n gweithio:

Rydych chi’n mynd at gymdeithas adeiladu neu fanc, yn gofyn am swm penodol ac yna, os yw’r gymdeithas adeiladu neu’r banc yn cytuno, mae’n rhoi benthyg yr arian i chi.

OND …

… rhaid i chi dalu llog ar yr arian, felly byddwch chi’n talu yn ôl lawer mwy o arian nag y cawsoch chi ei fenthyg.

1. Chwiliwch am gyfraddau llog dwy gymdeithas adeiladu a dau fanc.

2. Sut mae'r cymdeithasau adeiladu neu'r banciau'n ceisio denu cwsmeriaid i gael morgais odi wrthyn nhw?